Golwg ar y Geiriau

Iwan Rhys Jones

Bywyd Tragwyddol

Nid gair ond ymadrodd sydd gennym y tro hwn, sef 'bywyd tragwyddol'.

Mae'r ymadrodd hwn yn codi sawl gwaith yn y Testament Newydd; mae'n rhan bwysig o neges Iesu Grist ac awduron y Testament Newydd.

Dechreuwn trwy gofio mai rhodd yw bywyd tragwyddol; does neb yn gallu ei hawlio. Duw sy'n ei roi: 'rhoi yn rhad y mae Duw, rhoi bywyd tragwyddol yng Nghrist Iesu ein Harglwydd'(Rhuf. 6:23).

Pa fath fywyd yw hwn?

Cyn troi at adnodau perthnasol, rhaid i ni gofio mai bywyd yw Duw a'i fod hefyd yn dragwyddol.

Mae Duw, a'r bywyd sy'n eiddo iddo, yn para am gyfnod diddiwedd, yn wir, y tu hwnt i amser, heb na dechrau na diwedd.

Felly mae bywyd tragwyddol yn fywyd sy'n parhau y tu hwnt i amser ac mae'n dynodi *math* o fywyd sy'n wahanol ei ansawdd i'r hyn sy'n deillio o'r byd hwn; bywyd y nef os mynnwch.

Gadewch i ni ystyried rhai agweddau eraill:

Mae'r bywyd hwn wedi'i gysylltu mewn modd arbennig iawn ag Iesu Grist. Dyma dystiolaeth yr apostol Ioan am Iesu Grist: 'Hwn yw'r gwir Dduw a'r bywyd tragwyddol'(1 Ioan 5:20). Felly, nid yn unig y gallwn sôn amdano ef yn rhoi dŵr y bywyd, yn llefaru geiriau'r bywyd, ond ef ei hun hefyd *yw'r* bywyd tragwyddol.

Er mai rhodd yw bywyd tragwyddol, mae'n amlwg o sawl man yn y Testament Newydd nad yw hynny'n golygu nad oes cyfrifoldeb arnom i geisio'r bywyd hwn. Dyma a ddywedodd Iesu Grist wrth y dorf a oedd yn ei ddilyn wedi iddo eu bwydo: 'Gweithiwch, nid am y bwyd sy'n darfod, ond am y bwyd sy'n para i fywyd tragwyddol.' (Ioan 6:27)

Efallai mai'r amod bwysicaf sy'n gysylltiedig â meddu ar y bywyd hwn yw credu:

'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.' (Ioan 3:16)